Coleg Graddedigion y Brifysgol

Prifysgol Caerdydd Medi 2011

Dechrau Addawol

Yr Athro Terry Marsden
Deon

Dechreuodd Coleg Graddedigion newydd y Brifysgol ar 1 Ionawr 2011 i gynnig dull mwy cyfunol a phenodol o gynnal ymchwil ôl-raddedig (PGR) yng Nghaerdydd. Ers hynny, cytunwyd ar drefn lywodraethu newydd sy'n cynnwys Penaethiaid Ysgolion, Cyfarwyddwyr Astudiaethau PGR, myfyrwyr PGR ac aelodau o gyfarwyddiaethau gweinyddol. Cewch y wybodaeth ddiweddaraf yn y cylchlythyr hwn am weithgareddau a blaenoriaethau Timau a Bwrdd y Rhaglen a bydd hefyd yn tynnu sylw at rai o weithgareddau parhaus Coleg Graddedigion y Brifysgol. Mae'r ffordd y mae pobl wedi ymgysylltu â'r trefniadau newydd wedi rhoi boddhad ac anogaeth i ni ac edrychwn ymlaen at eich cysylltiad parhaus â'r gwaith.

Yr Athro Ken Wann
Dirprwy Ddeon

Coleg Graddedigion y Brifysgol
Timau Rhaglenni

Mae Coleg Graddedigion y Brifysgol ar waith erbyn hyn ac mae'r holl drefniadau sydd eu hangen i'w redeg yn effeithlon ac yn effeithlon yn eu lle. Mae Bwrdd y Coleg yn cynnwys cynrychiolwyr ar draws y Brifysgol gan gynnwys Dirprwy Is-gangellorion a myfyrwyr PGR, ond y chwe Phennaeth Ysgol yw aelodau craidd y Bwrdd. Cynorthwyir y Bwrdd gan bedwar Tîm Rhaglenni ac mae pob un ohonynt yn gyfrifol am ddatblygu un o'r meysydd canlynol - Rhoi Profiad o Safon, Cynyddu Galluedd, Cyfleusterau i Raddedigion a Hyfforddiant a Datblygu. Nod y Timau Rhaglenni yw cyfuno a mireinio'r swyddogaethau academaidd a chynorthwyol fel bod rhagor o gyfathrebu a gweithio tuag at yr un diben o ran blaenoriaethau strategol y Brifysgol a chynllun gweithredu PGR. Y Deon neu'r Dirprwy Ddeon yw cadeiryddion y Timau Rhaglenni ac mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o bwyllgorau perthnasol y Brifysgol a staff y Gyfarwyddiaeth. Cewch ddisgrifiad o'r meysydd gwaith a'r blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer pob un o'r Timau Rhaglenni dros y dudalen.

Arolwg o Brofiad Ymchwil Ôl-raddedig

Cynhelir Arolwg Profiad Ymchwil Ôl-raddedig (PRES) ledled y DU bob dwy flynedd. Cymerodd Caerdydd ran am y trydydd tro yn 2011 gyda 101 o sefydliadau eraill gan gynnwys 14 prifysgol Grŵp Russell. Cafwyd dros 31,000 o ymatebion, gan gynnwys 64 o Gaerdydd (cyfradd ymateb o 32%). Dim ond ar ôl eu cronni yr ydym yn cael gwybod beth oedd yr ymatebion i'r arolwg ond gallwn gymharu ein canlyniadau â'r sector ac ymatebion prifysgolion Grŵp Russell gyda'i gilydd (ond nid gyda sefydliadau unigol).

Yn y rhan fwyaf o feysydd, roedd ymatebion Caerdydd yn debyg iawn i ymatebion Grŵp Russell. Roedd ymatebwyr Caerdydd yn fwyaf cadarnhaol am oruchwyliaeth (cymedr o 4.1 ar raddfa 5 pwynt), y drefniadaeth (llyfrgelloedd a TG gyda chymedr o 4.1 ar y raddfa) a datblygu sgiliau (4.0). Dilynwyd hyn gan ddeall nodau a safonau (3.9) ac ymchwil amgylcheddol (3.8). Datblygiad proffesiynol a gyrfaol oedd y maes y bu'r ymatebwyr yn lleiaf cadarnhaol yn ei gylch (3.4). O ystyried pa mor hir yw'r arolwg, ni all erthygl fer mewn cylchlythyr roi darlun cywir o'r canlyniadau. Mae'r prif adroddiad i'w weld ar wefan Coleg Graddedigion y Brifysgol yn ogystal â sleidiau PowerPoint. Cynhelir dadansoddiad manylach yn yr hydref a fydd yn ddefnyddiol dros ben i ni wrth i ni barhau i amlygu cryfderau yn ogystal â meysydd i'w gwella.

Tîm Rhoi Profiad o Safon

Diwygio ac ail-ymgorffori'r Cod Ymarfer, yn enwedig y system Monitro Cynnydd, yw prif flaenoriaeth y Tîm Rhoi Profiad o Safon. Mae'r system Monitro Cynnydd yn benodol yn hanfodol i ansawdd y cymorth a'r cyfraddau cyflwyno traethodau. Roeddent yn cytuno bod gwaith i'w wneud i gael mwy o gysondeb a gwella adborth i'r arolygon PGR. Bydd datblygu dulliau electronig fel cofnod ymchwil yn bwysig er mwyn cynorthwyo myfyrwyr i gadw cofnodion a chynorthwyo goruchwylwyr a Chyfarwyddwyr Astudiaethau PGR.

Mae cyfrannu at ddatblygu gwerthusiad sylfaenol o waith PGR yr Ysgolion, yn ogystal â diffinio tystiolaeth o raglen gradd ymchwil o safon, yn dasg allweddol arall fydd yn cyd-fynd â'r prosiect 'Profi Rhagoriaeth'.

Tîm Cyfleusterau Graddedigion

Y tîm hwn sy'n gyfrifol am gadw golwg ar Ganolfan y Graddedigion sy'n parhau i fod ar gael i fyfyrwyr a addysgir yn ogystal ag ymchwilwyr ôl-raddedig. Roedd yr adborth ffafriol gan ddefnyddwyr y ganolfan yn hwb i'r tîm. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi cyfleusterau tebyg ar Gampws Parc y Mynydd Bychan a, gyda lwc, caiff newyddion da ei gyhoeddi cyn bo hir am agor man penodol. Mae'r tîm hefyd yn monitro cynnydd Adeilad Haydn Ellis lle bydd swyddfeydd y Coleg yn ogystal â lle ar gyfer hyfforddiant, cynadleddau ac arddangosfeydd. Ystyriodd y tîm y cyfleusterau sydd ar gael i ymchwilwyr ôl-raddedig gan gynnwys swyddfeydd sy'n parhau i beri pryder; mae hefyd yn gobeithio hyrwyddo'r syniad o rannu cyfleusterau ar draws y Brifysgol. Mae'r agenda ar gyfer y flwyddyn newydd yn cynnwys ystyried y llyfrgell a'r wybodaeth sydd eu hangen ar ymchwilwyr ôl-raddedig, a hynny o ran anghenion electronig a ffisegol. Byddant hefyd yn ystyried datblygu amgylchedd rhithwir gan gynnwys rhwydweithiau rhithwir. Mae canlyniadau cychwynnol yr Arolwg o Brofiad Ymchwil Ôl-raddedigion wedi cynorthwyo'r tîm i bennu ei gamau a'i flaenoriaethau gan fod yr arolwg yn gofyn pa gyfleusterau sydd ar gael mewn ysgolion.

Tîm Cynyddu Galluedd

Un o dasgau cyntaf y tîm hwn oedd bod yn Banel Adolygu Dros Dro ar gyfer Ysgoloriaeth Ymchwil y Llywydd. Ystyriodd y panel y cyflwyniadau fesul un ac ar y cyd i asesu llwyddiant pob un a'r cynllun yn gyffredinol. Cytunwyd bod ei nodau'n cael eu cwrdd ac argymhellwyd i'r cynllun gael ei barhau. Ystyriwyd hefyd y posibilrwydd o gael ysgoloriaethau PhD a ariennir gan sefydliadau gan gydnabod yr anhawster posibl rhwng cynnal nifer helaeth o raglenni a myfyrwyr PhD newydd ochr yn ochr â buddsoddi mewn nifer llai o raglenni mewn meysydd blaenoriaeth sefydledig.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried dangosyddion allweddol o niferoedd a chyflwyniadau ymchwilwyr ôl-raddedig, gan gynnwys tueddiadau, a blaenoriaethwyd y dylid sefydlu dull rheoli gwybodaeth mwy cadarn a datblygu dull mwy rhagweithiol ar gyfer cynlluniau RCUK yn y dyfodol.

Tîm Hyfforddi a Datblygu

Ystyried sut mae sgiliau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd oedd tasg gyntaf y Tîm Hyfforddi a Datblygu; roeddent o blaid cynnal rhaglen ganolog sydd ar gael i bob ymchwilydd ôl-raddedig ac sy'n cynnig sesiynau 'cyffredinol' neu rai sy'n ymwneud â disgyblaethau penodol. Daeth y 'Grwpiau Disgyblaeth' ynghyd wedyn ym mis Mai i drafod manylion y rhaglen hyfforddi sgiliau ffurfiol a chyflwyno adroddiad i'r Tîm Hyfforddi a Datblygu a aeth ati i ystyried a chymeradwyo eu cynigion, pennu'r gyllideb a chynghori am sut i farchnata'r rhaglen.

Mae pob cam disgwyliedig yn y broses wedi'i gymryd erbyn hyn er mwyn paratoi Rhaglen Coleg Graddedigion y Brifysgol (gweler yr erthygl ar dudalen 4). Ar sail tystiolaeth yn yr Arolwg o Brofiad Ymchwil Ôl-raddedigion, maent yn argymell y dylid cynnal adolygiad o anghenion a hyfforddiant datblygu'n rhan orfodol o fonitro cynnydd yn flynyddol. Gan edrych i'r dyfodol, maent wedi pennu blaenoriaethau allweddol i wella: hyfforddiant addysgu ar gyfer ymchwilwyr ôl-raddedig a'i achredu; hyfforddiant a chymorth ym maes ystadegau; ymgysylltu â'r cyhoedd; rhoi hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ac e-ddysgu ychwanegol.

Lansio Olynydd RSSDP

Bydd olynydd Rhaglen Datblygu Sgiliau Myfyrwyr Ymchwil (RSSDP), oedd yn hynod lwyddiannus, yn cael ei lansio ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd. Mae'r rhaglen newydd hon yng Ngholeg Graddedigion y Brifysgol yn cynnwys dros 300 o brosiectau ar draws 196 o wahanol weithdai. Mae llawer o'r rhain yn newydd eleni ac fe'u hategir gan gyrsiau ar-lein, darlithoedd a seminarau a chynadleddau a arweinir gan fyfyrwyr. Yn seiliedig ar y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr (RDF) a gafodd ei lunio a'i gyflwyno ar ddechrau'r flwyddyn gan Vitae, mae'r rhaglen wedi'i rhannu'n bedwar 'parth' sy'n cynnwys y wybodaeth, y galluoedd deallusol, y technegau a'r safonau proffesiynol sydd eu hangen i ymchwilio, yn ogystal â rhinweddau personol, gwybodaeth a sgiliau i gydweithio ag eraill a sicrhau bod ymchwil yn cael effaith ehangach.

Mae'r llyfryn wedi'i weddnewid ac mae ar fin cael ei gyhoeddi. Caiff ei ddosbarthu ymysg myfyrwyr cyfredol erbyn diwedd Awst yn ogystal â myfyrwyr newydd ym mis Medi cyn iddynt gofrestru.



Anogir myfyrwyr i gynllunio eu hyfforddiant sgiliau a'u datblygiad personol gyda'u goruchwylwyr ar ôl iddynt adolygu eu sgiliau cyfredol drwy ddefnyddio Cynllunydd Datblygiad Proffesiynol newydd RDF sydd ar gael yn www.vitae.ac.uk/rdfplanner. Cewch fanylion llawn am y cynllunydd ac awgrymiadau am sut i hyrwyddo ac ehangu eich datblygiad proffesiynol a gyrfaol yn y llyfryn.

Cynnwys Ymchwilwyr Ôl-raddedig

Ym mis Chwefror, gwahoddwyd pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig oedd yn cynrychioli maes ymchwil ôl-raddedig yn eu hysgol i gyfarfod gyda'r Deon a'r Dirprwy Ddeon. Eglurwyd y trefniadau a'r amcanion arfaethedig a gwahoddwyd y cynrychiolwyr i gyflwyno sylwadau am eu blaenoriaethau allweddol ar gyfer y sefydliad newydd; roedd y rhain yn amrywio'n helaeth ac yn cynnwys gwella'r rhaglen hyfforddi; cynorthwyo ymchwilwyr ôl-raddedig sy'n addysgu; swyddfeydd a chyfleusterau; systemau cyfathrebu a dulliau cynrychioli. Defnyddiwyd y mewnbwn i lunio agenda ddatblygu Timau'r Rhaglen. Ystyriwyd sawl maes hefyd drwy gwestiynau 'lleol' a gafodd eu cynnwys yn yr Arolwg o Brofiad Ymchwil Ôl-raddedig bob dwy flynedd.

Ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd ail gyfarfod i ddiweddaru'r cynrychiolwyr am drafodaethau a chamau pob un o dimau'r rhaglen. Ystyriwyd hyn yn ddolen adborth bwysig er mwyn cael atebolrwydd ac roedd yn cyfrannu at drafodaeth am sut caiff ôl-raddedigion eu cynrychioli yn y dyfodol ar gyfer Coleg Graddedigion y Brifysgol gan gynnwys dewis ymchwilwyr ôl-raddedig ar Dimau a Bwrdd y Rhaglen a sut gallai'r cynrychiolwyr hyn holi barn grwpiau ehangach o gynrychiolwyr ymchwilwyr ôl-raddedig. Caiff hyn ei ddatblygu yn yr hydref. Cytunodd y grŵp i gwrdd ddwywaith y flwyddyn gyda chynrychiolwyr yr ymchwilwyr ôl-raddedig yn trefnu'r agenda yn y dyfodol.

Cynadleddau Myfyrwyr

Mae Coleg Graddedigion y Brifysgol wedi cynnal tair cynhadledd lwyddiannus i fyfyrwyr eleni. Denodd digwyddiadau blynyddol 'Sylw ar Wyddorau Cymdeithasol', 'Llais y Dyniaethau' (y naill fel y llall ym mis Mawrth) a 'Sôn am Wyddoniaeth' (Mai) 119 o gyrychiolwyr o Brifysgol Caerdydd a'r rhanbarth.

Dechreuodd y cynadleddau 8 mlynedd yn ôl gyda 'Sôn am Wyddoniaeth' i roi'r cyfle i rannu ymchwil ôl-raddedig yn y Brifysgol. Creu cymuned ymchwil ehangach yw'r nod yn ogystal â meithrin cysylltiadau ar draws disgyblaethau sydd o les i bawb. Cynhaliwyd digwyddiadau ar gyfer y gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau yn sgil hyn. Mae'r cynadleddau'n rhoi cyfle i'r myfyrwyr gyflwyno eu gwaith mewn sefyllfaoedd cyfeillgar a chefnogol ac yn eu galluogi i ddatblygu sgiliau wrth alluogi pobl nad ydynt yn arbenigwyr ddefnyddio eu hymchwil.

Staff Coleg Graddedigion y Brifysgol a grŵp llywio o fyfyrwyr sy'n cynnal y cynadleddau ar y cyd. Mae'r myfyrwyr hyn hefyd ar baneli beirniadu sy'n gwobrwyo'r yflwyniadau gorau. Dylai unrhyw fyfyriwr â diddordeb mewn cynnal digwyddiadau'r flwyddyn nesaf ac ennill profiad gwerthfawr o drefnu digwyddiad gysylltu â swyddfa Coleg Graddedigion y Brifysgol.

Arian ar gyfer Prosiectau Rhyngddisgyblaethol

Gan barhau â'n cynllun llwyddiannus o ariannu prosiectau rhyngddisgyblaethol a drefnir gan ymchwilwyr ôl-raddedig a staff ymchwil, rydym wedi cyflwyno sawl grant ar gyfer prosiectau o'r fath yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'r prosiectau sydd wedi cael arian yn cynnwys cynhadledd ddeuddydd am

'Chwedlau a Llên Gwerin', cyfres o seminarau am 'Deimladau Allanol', rhwydwaith o gyfarfodydd am 'Rwydwaith Animeiddiad a Chanfyddiad y Wyneb Dynol' a chynhadledd 'Ar Blât: Cysylltiadau Newydd mewn Ymchwil Bwyd'.

'Cynhadledd Ryngwladol Trawsnewidiadau'

'Trawsnewidiadau' oedd thema cynhadledd flynyddol y dyniaethau ar 7 Gorffennaf. Denwyd hanner cant o bobl iddi gan gynnwys rhai o wledydd America, y Dwyrain Canol, dwyrain Ewrop, de-ddwyrain Asia ac Affrica. Mae'r digwyddiad hwn ychydig yn wahanol i'r rhai eraill ar ochr arall y dudalen gan fod y myfyrwyr yn cyflwyno papurau am thema benodol. Mae'r rhain yn gallu amrywio ac maent wedi cynnwys 'Y Corff', 'Creu Hunaniaethau' a 'Darllen, Delweddau, Testunau ac Arteffactau' yn hytrach na chyflwyno ymchwil yn gyffredinol.

Digwyddiadau Gyrfaoedd

Mae Coleg Graddedigion y Brifysgol wedi cynnal pum digwyddiad am yrfaoedd eleni ar gyfer ôl-raddedigion a staff ymchwil. Maent naill ai'n canolbwyntio ar yrfaoedd academaidd neu yrfaoedd y tu allan i'r byd academaidd yn y disgyblaethau gwahanol. Maent yn rhoi'r cyfle i'n hymchwilwyr siarad gyda staff academaidd o Gaerdydd a sefydliadau eraill, yn ogystal ag amrywiaeth o siaradwyr o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae BAE Systems, GE Healthcare, Cummins, y Swyddfa Eiddo Deallusol, Llywodraeth Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru ymysg y sefydliadau a gynrychiowyd yn nigwyddiadau eleni.

Cynhaliodd Coleg y Graddedigion sesiwn drafod gyda Jane Cocking, Cyfarwyddwr Dyngarol OXFAM, am y gyrfaoedd amrywiol sydd ar gael mewn sefydliadau sydd heb gysylltiad â'r llywodraeth. Roedd tua 80 o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a staff ymchwil cynnar yn bresennol.

"Fe wnes ffrindiau gyda phobl o ysgolion eraill oedd â meysydd ymchwil tebyg i fy rhai i. Felly, penderfynon ni greu grŵp ac rydym yn cyflwyno syniadau ar gyfer seminar y gallen ni ei chynnal gyda'n gilydd— ymchwil rhyngddisgyblaethol ar waith o'r dechrau! Cyffrous iawn!"

Adborth myfyriwr am Camau Cyntaf

Camau Cyntaf

Camau Cyntaf yw'r rhaglen ymgynefino ar lefel y Brifysgol sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â myfyrwyr ymchwil eraill a dechrau meithrin rhwydweithiau personol a phroffesiynol pwysig. Gan gloi gyda chinio am ddim, bydd pynciau trafod y bore yn cynnwys hawliau a chyfrifoldebau myfyrwyr ymchwil, y cyfleusterau sydd ar gael yng Nghanolfan y Graddedigion a'r Brifysgol, cyfleoedd hyfforddiant a datblygu yn ogystal â chyflwyniadau gan fyfyrwyr cyfredol. Mae Camau Cyntaf wedi'i dylunio i ategu rhaglen ymsefydlu'r ysgol.

Dydd Iau 6 Hydref

Dydd Mercher 12 Hydref

Dydd Mawrth 25 Hydref

Cyswllt: Swyddfa 60 Plas y Parc 029 2087 9408 UGC@ caerdydd.ac.uk